

Sul yr Urdd

Darlleniad: 1 Ioan 2: 7, 4: 5-17

O! Dduw, ein Tad, gweddiwn gyda'r Salmydd:

‘Bydded ein meibion fel planhigion yn tyfu'n gryf yn eu hieuenctid, a'n merched fel pileri cerfiedig mewn adeiladwaith palas.’

Yn ôl dy Air, fe roddaist ti le amlwg i brydferthwch a chryfder yr ifanc i harddu a chyfoethogi cymdeithas dy bobl ym mhob cenedlaeth.

Molwn di, O! Dduw, am iti anfon dy Fab i'n byd fel plentyn bychan. Roedd dy fendith di arno wrth iddo gynyddu mewn doethineb a maintioli, ac ennill calon ei gyfoedion fel llanc ifanc. Ac yntau newydd adael cartref a chael ei fedyddio, fe ymhyfrydaist ti ynddo fel dy annwyl Fab. Fe gasglodd ef ddwsin o gymdeithion ifainc o'i gwmpas a rhoes iddynt weledigaeth gyffrous o'th fwriadau pellgyrhaeddol di ar gyfer dy fyd. Er iddynt gefnu arno yn awr ei argyfwng, fe agorwyd eu llygaid i adnabod Iesu fel y Gwardwr ifanc a oedd yn gwneud pob peth yn newydd.

Diolch i ti am greu'r Eglwys i fod yn gnewyllyn y ddynoliaeth newydd hon. Fe'i bendithiaist â theluoedd cyfiawn ac ag arweinwyr ifainc. Ynddi hi fe gafodd y plant brofiad ohonot ti, O! Dduw, fel Tad. Agorwyd llygaid ei phobl ifainc i weld eu bod yn gryf am fod dy Air di yn aros ynddynt ac yn galluogi iddynt orchfygu'r un drwg. Fe'u diddyfnwyd o drachwant y cnawd a balchder mewn meddiannau trwy roi eu bryd ar y pethau arhosol, trwy wneud dy ewyllys di, O! Dduw.

Molwn dy enw heddiw am rieni ac arweinwyr ieuenctid sy'n adnabod yr hwn sydd wedi bod o'r dechreuad ac yn aros am byth. Diolchwn yn arbennig am sylfaenwyr ac arweinwyr presennol yr Urdd a roes eu gwasanaeth yn ddiplino i rannu'r adnabyddiaeth hon

â chenhedlaeth arall. Molwn di am yr athrawon a'r cerddorion, y crefftwyr a'r gwirfoddolwyr a rannodd eu hamser a'u dawn yn llawen i wasanaethu ein plant a'n pobl ifainc. Canmolwn di, O! Dduw daionus, am ddonio ein hieuenctid mor hael. Gweddïwn am iddynt hwythau dy adnabod di fel y rhoddwr rhad ac ymateb i'th ddaioni trwy berffeithio eu doniau a'u defnyddio i gyfoethogi bywyd ein cymdeithas a'n cenedl ac i ddwyn gogoniant i ti. Gweddïwn yn arbennig am dy fendith di ar Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd fel y caiff pawb sydd ynglŷn â hi brofiad arall o geinder ac o ddaioni dy fwriadau gogoneddus di.

Bendigwn dy enw am ymrwymiad pob aelod o'r Urdd i fod yn ffyddlon i Gymru, i Gyd-ddyn, i Grist. Lle gweithredir y ffyddlondeb hwn fe elli di ddefnyddio'r mudiad cenedlaethol hwn i fod yn Urdd Gobaith Cymru yn wir. Yn dy ddoethineb fe drefnaist ti ddyfodol rhagorach nag y gallwn ni ei ddychmygu i'n gwlad a'n byd. Una'n breuddwydion ni â'th bwrpas tragwyddol di, fel bod ein cynlluniau a'n gweithredoedd ni yn unol â'th ewyllys sanctaidd di, Dad, Mab ac Ysbryd Glân, sydd wedi maddau'n holl bechodau trwy dy enw mawr dy hun. Amen.

Saunders Davies